# Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-02-09 (p1): 3 Chwefror 2009

### Sut y mae cyfle cyfartal yn cael ei flaenoriaethu o fewn Rhaglen Cymru'n Un

### Crynodeb / Argymhellion

1. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i mi baratoi papur yn amlinellu sut y mae cyfle cyfartal yn cael ei flaenoriaethu o fewn rhaglen Cymru'n Un. Amlinellir ein hymrwymiad, sef hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb wrth i ni gyflawni ein swyddogaethau, yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Ein hymrwymiad yw prif-ffrydio cydraddoldeb trwy ein holl waith, ar draws pob maes portffolio. Rydym yn adrodd ar ein cynnydd bob blwyddyn yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, y disgwylir iddo gael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 24 Chwefror 2009.

2. Mae'r papur hwn yn amlinellu ein dull cyffredinol o gyflawni'r ymrwymiadau cyfle cyfartal, ond mae'n nodi manylion rhai o'r meysydd lle y cafwyd cynnydd sylweddol.

### Cefndir

3. Mae dogfen Cymru'n Un yn ymwneud â gwella bywydau pobl Cymru yn gyffredinol, waeth beth fo'u hanabledd, eu hil, eu crefydd, eu lliw neu eu cyfeiriadedd rhywiol, a gwneud ein gwlad yn lle gwell i fyw, gweithio, astudio a buddsoddi ynddo. Mae'n nodi'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod y pedair blynedd nesaf i wella bywydau pobl Cymru, gan gynnwys 228 o ymrwymiadau penodol. Mae Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un 2007-2011 yn dangos yr hyn y byddwn ni'n ei wneud i gyflawni pob un ohonynt.

4. Rydym yn rhoi sylw i egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a chynhwysiant yn gyson drwy'r rhaglen, gan gydnabod amrywiaeth Cymru'n llawn – yn ddaearyddol, yn gymdeithasol, yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol.

5. Mae cydraddoldeb yn llawer mwy o thema drawsbynciol na chyfrifoldeb adrannol, ond mae dau ymrwymiad penodol i'w cyflawni er mwyn datblygu'r agenda cydraddoldeb, sef:-

(a) Byddwn yn gweithio i sicrhau llwyddiant y corff Cydraddoldeb unigol newydd yng Nghymru, gan dynnu ar y profiad blaenorol o ddefnyddio'r dull hwn yng Ngogledd Iwerddon; a

(b) Byddwn yn parhau i gydweithredu â'r Fforwm Aml-ffydd, a hynny'n fwy nag erioed, er mwyn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ar draws diwylliannau a chrefyddau; byddwn yn datblygu ymhellach fodelau arfer da a'u lledaenu ymhlith cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n cydnabod ac yn parchu amrywiaeth yn ogystal â'r hyn sy'n gyffredin rhwng pobl.

6. Rydym yn gwneud cynnydd o ran y ddau ymrwymiad hyn, gan ddatblygu perthynas adeiladol gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, cynnal deialog rheolaidd â hwy, gweithio mewn partneriaeth â hwy ar ddarnau allweddol o waith, ac yn ddiweddar cyfrannu'n sylweddol at eu hymchwiliad i Hawliau Dynol.

7. Rwy'n cadeirio'r Fforwm Cymunedau Ffydd, sy'n cynnwys arweinwyr gwahanol bleidiau a chynrychiolwyr gwahanol grefyddau ymysg ei aelodau. Mae'r Fforwm yn enghraifft ardderchog o gydweithio i hyrwyddo cydraddoldeb, goddefgarwch a chynhwysiant. Byddwn yn lledaenu arfer da ar hyn, ac ar ein gwaith blaengar ar gydraddoldeb, a hynny'n helaeth.

8. Mae ein dull o hyrwyddo cyfle cyfartal yn ymwneud â gwneud Cymru'n lle gwell i fyw, gweithio ac astudio ynddo i bawb, waeth beth fo'u cefndir, ac yn dibynnu ar gynhwysiant a thegwch. Rydym eisiau sicrhau bod cyfleoedd fel addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da ar gael i bob dinesydd yng Nghymru. Mae hynny'n golygu deall cyfansoddiad ein poblogaeth a bod yn gwbl ymwybodol o'u hanghenion.

9. Er mwyn helpu i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael lle canolog ym musnes Llywodraeth y Cynulliad, mae gennym dîm canolog sy'n gwneud y gwaith o ddarparu cymorth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol; mae gennym Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ym mhob adran; rydym yn sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried fel rhan o'r ffordd yr ydym yn creu polisïau trwy ei ymgorffori yn y porth i bolisïau a thrwy ddefnyddio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, sy'n bwysig er mwyn creu polisïau cynhwysol gwell.

10. Fel rhan o'n rhaglen flaengar, rydym yn datblygu Cynllun Cydraddoldeb, gan fynd i'r afael ag oedran, anabledd, rhyw a thrawsrywioldeb, hil, crefydd, cred ac anghred, a chyfeiriadedd rhywiol. Bydd cynlluniau gweithredu'n darparu sail i hyn, gan nodi sut y bydd cynnydd yn cael ei gyflawni a'i fesur. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn gysylltiedig â'n hymrwymiadau allweddol, a byddwn yn cyhoeddi adroddiadau bob chwe mis. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru swyddogaeth arwain bwysig. Rwy'n credu y bydd symud o ddull un maes i ddull sawl maes o hyrwyddo cydraddoldeb yn helpu i wella cyfleoedd bywyd ein poblogaeth.

11. Am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2008, cyhoeddom adroddiad Gweinidogion Cymru ar weithredu'r ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu cipolwg defnyddiol ar sut y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cyflawni eu hymrwymiad i ddarparu polisïau a gwasanaethau sy'n bodloni anghenion pobl anabl. Rydym yn bwriadu cynnal rhaglen tair blynedd gyda chymorth pobl anabl a chynghorwyr arbenigol i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

12. Mae Cynllun Cyflenwi 2007-2011 yn nodi cynnydd o ran pob un o'n hymrwymiadau yn Cymru'n Un, ond gellir gweld yn glir, o ran ymrwymiad 1 i ddechrau, sef Confensiwn Cymru Gyfan, ein bod yn rhoi blaenoriaeth i gydraddoldeb. Yn achos yr ymrwymiad penodol

hwnnw, er enghraifft, mae Confensiwn Cymru Gyfan yn cymryd camau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth weithredu ei raglen waith. Wrth sefydlu ei Bwyllgor Gweithredol, cafodd y Confensiwn enwebiadau gan 8 rhanddeiliad allweddol, gan gynnwys y Fforwm Ffydd, Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru a'r Ddraig Ffynci. Cafodd pedwar aelod o'r Pwyllgor eu recriwtio hefyd trwy gystadleuaeth agored.

Mae Cadeirydd y Confensiwn wedi cyfarfod â nifer o sefydliadau rhanddeiliaid ac ambarél, gan gynnwys Anabledd Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Mencap a Stonewall, er mwyn annog y sefydliadau hyn i gymryd rhan yn y ddadl ar ddatganoli a gofyn am eu cymorth a'u cyngor ar hysbysu eu haelodau ac ymgysylltu â hwy.

Yn ddiweddar, mae'r Confensiwn wedi cychwyn cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, a fydd yn cynnwys ystod o wahanol fathau o ddigwyddiad, er mwyn ceisio denu cynulleidfa mor helaeth â phosibl o blith pobl Cymru. Bydd y rhain yn cynnwys digwyddiadau Trafod, sesiynau Hawl i Holi a digwyddiadau penodol ar gyfer teuluoedd a phobl hyn. Mae'r Cadeirydd ac Aelodau o'r Pwyllgor hefyd wedi cynnal a mynychu nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau ar gyfer grwpiau Cymunedol a Gwirfoddol.

## Goblygiadau Ariannol

13. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn codi o'r papur hwn sy'n adlewyrchu ein dull presennol o weithredu. Yn unol â Hysbysiadau Cyllid 01/2007 a 01/2009, ymgynghorwyd â'r Uned Busnes Materion Cyfansoddiadol, Cydraddoldeb a Chyfathrebu (CAEC/08-09/032) a Chynllunio Ariannol (BP 3259) ynghylch cynnwys y papur hwn, ac maent yn fodlon ag ef.

## Camau i'r Pwyllgor eu cymryd

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

**Y Gwir Anrh Rhodri Morgan AC**

**Prif Weinidog Cymru**

**Enw Cyswllt:** Heulwen Blackmore, Yr Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ffôn 02920 826572.